ATODLEN 1

CYNLLUN PENSIWN NEWYDD Y DIFFODDWYR TÂN (CYMRU)

# RHAN 5

## DYFARNDALIADAU YN SGIL MARWOLAETH

### Grant marwolaeth

**1.**—(1) Yn sgil marwolaeth person tra bo'n gwasanaethu fel aelod-ddiffoddwr tân, rhaid i'r awdurdod dalu grant marwolaeth y canfyddir ei swm yn unol â darpariaethau canlynol y rheol hon (p'un a oes pensiwn yn daladwy o dan unrhyw Ran arall ai peidio).

(2) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) i (5) ac, os yw paragraff (8) yn gymwys, paragraff (9), mae'r swm yn dair gwaith swm tâl pensiynadwy'r ymadawedig adeg ei farwolaeth, wedi'i fynegi fel cyfradd flynyddol.

(3) Os—

(a) oedd yr ymadawedig yn aelod-ddiffoddwr tân amser-cyflawn adeg ei farwolaeth,

(b) byddai wedi bod gan yr ymadawedig, pe bai wedi byw, hawlogaeth i gael dau bensiwn o dan reol 7 o Ran 3, ac

(c) yw lluoswm y fformiwla ganlynol yn fwy na thair gwaith swm tâl pensiynadwy'r ymadawedig adeg ei farwolaeth, a'r tâl hwnnw wedi'i fynegi fel cyfradd flynyddol—

$$3 \times \left\{\frac{(A \times B)}{C} + \frac{(D \times E)}{C}\right\}.$$

ac

A yw swm tâl pensiynadwy'r ymadawedig ar ddiwrnod gwasanaeth olaf yr ymadawedig a fyddai wedi'i ddefnyddio i gyfrifo ei bensiwn o dan reol 7(3) o Ran 3,

B yw gwasanaeth pensiynadwy'r ymadawedig a fyddai wedi'i ddefnyddio yn y cyfrifiad hwnnw,

C yw gwasanaeth cymhwysol yr ymadawedig,

D yw gwasanaeth pensiynadwy'r ymadawedig a fyddai wedi'i ddefnyddio i gyfrifo ei bensiwn o dan reol 7(4) o Ran 3, a

E yw tâl pensiynadwy'r ymadawedig adeg ei farwolaeth,

y swm mwyaf hwnnw yw swm y grant marwolaeth.

(4) Os oedd yr ymadawedig yn aelod-ddiffoddwr tân rhan-amser ar unrhyw bryd yn ystod cyfnod ei wasanaeth (p'un a oedd yn aelod-ddiffoddwr tân amser-cyflawn am ran o'r cyfnod hwnnw ai peidio), swm y grant marwolaeth yw'r mwyaf o'r canlynol —

(a) tair gwaith tâl pensiynadwy'r ymadawedig adeg ei farwolaeth (a fyddai, os oedd yn cael ei gyflogi'n rhan amser bryd hynny, yn cael ei gyfrifo yn ôl y gyfradd ran-amser), wedi'i fynegi fel cyfradd flynyddol; a

(b) lluoswm y fformiwla

$$\frac{F}{G} \times H \times 3.$$

ac—

F yw gwasanaeth pensiynadwy'r ymadawedig,

G yw gwasanaeth cymhwysol yr ymadawedig, ac

H yw'r tâl pensiynadwy y byddai'r ymadawedig wedi'i gael, pe bai wedi bod, drwy gydol cyfnod ei wasanaeth, yn ddiffoddwr tân amser-cyflawn yr oedd ei rôl a chyfnod ei wasanaeth yn rhai cyfatebol.

(5) Os oedd yr ymadawedig—

(a) wedi dod yn un yr oedd ganddo hawlogaeth i gael dau bensiwn o dan reol 7(1) o Ran 3 adeg ei farwolaeth; a

(b) wedi bod yn aelod-ddiffoddwr tân rhan-amser yn ystod y cyfnod o wasanaeth yr oedd ganddo hawlogaeth i gael ail bensiwn ar ei gyfer o dan reol 7(4) o'r Rhan honno (p'un a oedd wedi bod yn aelod-ddiffoddwr tân amser-cyflawn ar gyfer rhan o'r cyfnod hwnnw ai peidio),

y swm yw pa un bynnag o'r canlynol yw'r mwyaf—

(i) tair gwaith tâl pensiynadwy'r ymadawedig adeg ei farwolaeth, wedi'i fynegi fel cyfradd flynyddol;

(ii) lluoswm y fformiwla a bennir ym mharagraff (3), a

(iii) lluoswm y fformiwla a bennir ym mharagraff (4).

(6) Os oedd yr ymadawedig yn absennol o'i ddyletswydd heb dâl yn union cyn y diwrnod y bu iddo farw, rhaid barnu mai tâl pensiynadwy'r ymadawedig at ddibenion y rheol hon, a hynny'n ddarostyngedig i baragraff (8), yw swm y tâl a oedd yn briodol i rôl ac oriau wedi'u pennu yr ymadawedig y tro diwethaf iddo gael y swm, a hwnnw'n swm wedi'i fynegi fel cyfradd flynyddol.

(7) Ym mharagraff (6), ystyr "oriau wedi'u pennu" ("*conditioned hours*") yw nifer yr oriau yr oedd yn ofynnol i'r ymadawedig weithio bob wythnos o dan delerau ei gontract cyflogaeth.

(8) Bernir mai tâl pensiynadwy person —

(a) a oedd wedi gwneud dewisiad o dan reol 4 o Ran 10 (cyfrif cyfnod o absenoldeb di-dâl), a

(b) sy'n marw cyn gwneud unrhyw daliad o dan baragraff (4) o'r rheol honno,

yw swm y tâl pensiynadwy a fyddai wedi'i dalu pe bai cyfnod absenoldeb di-dâl y person o'i ddyletswydd wedi cyfrif fel gwasanaeth pensiynadwy, a hwnnw'n swm wedi'i fynegi fel cyfradd flynyddol.

(9) Pan fo paragraff (8) yn gymwys, rhaid lleihau'r grant marwolaeth â'r swm sy'n ddyledus i'r awdurdod o dan reol 4(1) o Ran 10.

(10) Yn ddarostyngedig i baragraff (11), caniateir i'r grant marwolaeth gael ei dalu, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, i'r person neu'r personau a wêl yr awdurdod yn dda.

(11) Rhaid i'r awdurdod beidio â thalu unrhyw ran o grant marwolaeth i berson sydd wedi'i gollfarnu o lofruddio'r ymadawedig neu o'i ddynladdiad, ond mae hyn yn ddarostyngedig i baragraff (12).

(12) Pa fo collfarn o'r disgrifiad a grybwyllwyd ym mharagraff (11) yn cael ei diddymu ar apêl, caiff yr awdurdod, os nad yw wedi talu'r grant marwolaeth yn llawn, dalu rhan ohono i'r person y mae ei gollfarn wedi'i diddymu.